PLAN INTERNATIONAL

For children and equality for girls

Child Friendly Cardiff / Caerdydd Sy'n Dda i Blant

Cardiff / Caerdydd



# CYNLLUN GRANT YSGOGWYR NEWID IFANC

Annie, Esther, Murial – State of Girls Rights Wales participants

**Shwmae, croeso i'r pecyn gwybodaeth hwn! Yma gallwch ddod o hyd i bopeth sydd angen i chi ei wybod am y cynllun Grant Ysgogwyr Newid Ifanc. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â lizzy.brothers@plan-uk.org. Rwy'n edrych ymlaen at weld eich syniadau, pob lwc!**



Cydlynydd Prosiect Cymru
**Lizzy**

# YCHYDIG AM PLAN INTERNATIONAL UK A CHAERDYDD SY'N DDA I BLANT

Mae **Plan International UK** yn elusen fyd-eang i blant. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hawliau merched yn fyd-eang yn cael eu cynnal a bod lleisiau pobl ifanc a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw wrth wraidd penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym mhwyllgor UNICEF y DU (UNICEF UK) ar gyfer menter **'Dinasoedd a Chymunedau syn Dda i Blant** genedlaethol. Ein huchelgais yw i Gaerdydd gael ei hadnabod fel dinas sy'n dda i blant: dinas â phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, a lle sy'n wych i gael eich magu.

Mae Plan International UK a Chaerdydd sy'n Dda i Blant wedi partneru ar y cynllun grant hwn i bobl ifanc sydd â syniadau prosiect sy'n cynnig i helpu i greu cyllid a chymorth mwy cyfartal i wneud eu syniadau'n realiti.

Yn anffodus, gwyddom fod merched a phobl ifanc yn wynebu nifer o heriau a all eu dal yn ôl yn yr ysgol, gyrfaoedd, bywyd bob dydd a'u hatal rhag bod nhw eu hunain. Os ydych am ddeall mwy am rai o'r materion hyn, mae Plan International UK wedi cynnal ymchwil yng Nghymru y gallwch ei **ddarllen yma.**

Os yw gwybod am yr heriau hyn yn eich ysbrydoli i wneud gwahaniaeth, yna rydym am glywed gennych! Mae'r pecyn grant hwn wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth fanylach am sut, pwy a beth y byddwn yn ei ariannu yn ogystal â phroses grant ac ymgeisio fanwl a chynhwysol.



# PWY BYDDWN NI'N EI ARIANNU?

Fel rhan o'r cynllun grant hwn, rydym am ariannu syniadau creadigol ac arloesol pobl ifanc yn uniongyrchol a fydd yn gwneud Caerdydd yn ddinas fwy cyfartal.

Byddwn yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau ieuenctid sy'n cefnogi syniad y bobl ifanc, ond rhaid i'r prosiect gael ei arwain gan bobl ifanc ac mae gweithwyr ieuenctid yn gweithio ar y prosiect hwn mewn rôl gefnogol.

## Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn syniadau sy'n:

- ☑ Grymuso pobl ifanc i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd yng Nghaerdydd
- ☑ Codi ymwybyddiaeth o broblemau a wynebir gan ferched a menywod ifanc yng Nghaerdydd
- ☑ Gweithredu cymdeithasol neu ymgyrchoedd ynghylch cydraddoldeb rhywiol
- ☑ Gwneud Caerdydd yn lle mwy cyfartal
- ☑ Gweithio i godi lleisiau pobl ifanc o grwpiau ymylol
- ☑ Hyrwyddo gwrywdod cadarnhaol
- ☑ Dod o bobl ifanc leiafrifol – yn enwedig y rhai sy'n uniaethu eu hunain yn rhan o gymunedau LHDTCRh+, BAME, Sipsiwn Roma, sy'n ofalwyr ifanc, pobl ifanc anabl, goroeswyr, neu unrhyw grwpiau eraill sy'n profi gorthrwm

## Beth na ellir ei ariannu:

- ☒ Ffioedd myfyrwyr/bwrsariaethau
- ☒ Prosiectau sy'n digwydd y tu allan i Gaerdydd. Gallwch fyw y tu allan i Gaerdydd ond mae rhaid i'ch prosiect fod er budd Dinas Caerdydd.
- ☒ Cyflog ar gyfer y prosiect – ni fyddwn yn talu am eich amser i gyflawni'r prosiect hwn
- ☒ Ymgyrchoedd unigolion dros swyddi etholedig h.y., sefyll am Aelod o'r Senedd, Cynghorydd Lleol, llywydd yr Undeb Myfyrwyr ac ati.
- ☒ Prosiectau/ syniadau nad ydynt yn cyd-fynd â gwerthoedd Plan International UK a Chaerdydd Sy'n Dda i Blant



## I wneud cais, rhaid ichi:

- ☑ Fod rhwng 13 a 24 oed
- ☑ Rhaid i bobl dan 16 oed fod ag oedolyn cyfrifol ar y prosiect a fydd yn derbyn arian i'w cyfrif banc.
- ☑ Bod yn brosiect dan arweiniad pobl ifanc, mae croeso i sefydliadau wneud cais ond dim ond fel ffynhonnell cymorth i'r bobl ifanc sy'n arwain y prosiect
- ☑ Sicrhau bod eich prosiect o fudd i Ddinas Caerdydd

# EIN GRANTIAU!

## Beth rydym yn ei gynnig i chi?

- ☑ Byddwn yn rhoi grant o hyd at 1000 i chi, i gyflawni prosiect i helpu i wneud Caerdydd yn ddinas fwy cyfartal
- ☑ Byddwn yn cynnal diwrnod ysbrydoli a fydd yn darparu hyfforddiant a chymorth ar ymgyrchu ac eiriolaeth, hawliau merched, rheoli prosiectau ac arian
- ☑ Byddwn yn eich cefnogi i godi ymwybyddiaeth o'ch prosiect a dathlu'r gwaith rydych chi'n ei wneud.
- ☑ Cymorth un i un gyda Lizzy, ein cydlynydd prosiect, a fydd eich rheolwr grantiau y gallwch fynd ati ar unrhyw adeg i gael help a chyngor.
- ☑ Digwyddiad dathlu i arddangos eich gwaith gwyc

## Beth sydd angen i chi ymrwymo iddo?

Os ydych yn llwyddiannus, bydd angen i chi ymrwymo i rai pethau.

- ☑ Mynychu diwrnod ysbrydoli lle byddwn yn dod â holl Ysgogwyr Newid Ifanc ynghyd i ddysgu mwy am reoli prosiectau a dod i gwrdd â phobl ifanc eraill sydd â gwerthoedd tebyg i chi. Byddwn yn helpu i ariannu trafnidiaeth i chi allu mynychu
- ☑ Cwblhau eich prosiect erbyn mis Ebrill 2024 fan bellaf
- ☑ Darparu dwy daflen adrodd cyllid syml, i ddangos sut y gwnaethoch wario eich arian. Mae angen un hanner ffordd drwy’r prosiect ac un ar ddiwedd y prosiect.
- ☑ Dod i'r digwyddiad dathlu i ddangos eich prosiectau anhygoel a dathlu gyda chyfoedion a gweithwyr proffesiynol.

Mae Plan International UK wedi ymrwymo i gefnogi'r holl bobl ifanc sy'n dod yn ysgogwyr newid. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chi ac yn meithrin perthynas waith wych fel y gallwch ddod atom ar unrhyw adeg gydag unrhyw broblemau, heriau neu uchafbwyntiau yr hoffech eu rhannu. Bydd eich rheolwr grant yn eich cefnogi i ddatrys unrhyw un o'r heriau hyn a bydd yno drwy gydol y prosiect.




# AWGRYMIADAU AR GYFER LLENWI EICH FFURFLEN GAIS!



## Beth bydd ei angen arnoch cyn i chi ddechrau:

- **Eich syniad:** beth rydych chi eisiau ei wneud? Beth yw eich prosiect a fydd yn gwneud Caerdydd yn lle mwy cyfartal, a beth fydd effaith eich prosiect yn eich barn chi?
- **Os ydych chi dan 16 oed, mae rhaid bod gennych oedolyn cyfrifol** sy'n gallu derbyn yr arian i'w cyfrif banc. Gallai hyn fod yn weithiwr ieuenctid, sefydliad, rhiant neu ofalwr.
- **Rhaid i bob person ifanc dan 18 oed gael cydsyniad rhiant, gwarcheidwad neu weithiwr cymorth.**
- **Syniad o faint y bydd eich prosiect yn ei gostio**, ar beth rydych chi'n mynd i wario'r arian



## Sut i wneud cais

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen gais ar-lein ar **wefan Caerdydd sy'n Dda i Blant.**

**Gallwch naill ai gwblhau'r cais ysgrifenedig trwy ffurflen ar-lein neu recordio eich hun yn ateb y cwestiynau ac anfon y fideo at** [lizzy.brothers@plan-uk.org](mailto:lizzy.brothers@plan-uk.org)

Os oes angen unrhyw help neu gymorth arnoch i gwblhau'ch cais, yna cysylltwch â Lizzy Brothers yn [lizzy.brothers@plan-uk.org](mailto:lizzy.brothers@plan-uk.org)

**GWNEUD CAIS NAWR**

# Cwestiynau am y cais

## 1. Enw'r Prosiect

Meddyliwch am rywbeth fydd yn hwyl a grymus!

## 2. Dywedwch wrthym amdanoch chi.

Yn yr adran hon, dywedwch wrthym am yr hyn rydych chi'n angerddol amdano a pham? Gallech hefyd roi gwybod i ni pam rydych chi wedi gwneud cais am y grant hwn a beth sy'n eich ysgogi i wneud newid.

a. **Ydych chi erioed wedi cael arian i gyflawni prosiect o'r blaen? Os ydych, dywedwch ychydig wrthym am y prosiect hwnnw, faint o gyllid a gan bwy**

b. **Sut rydych chi'n gobeithio defnyddio'r cyllid hwn yn wahanol?**

## 3. Beth yw'r broblem yr hoffech ei datrys a pham?

Yn yr adran hon, hoffem i chi ddweud wrthym am y pethau rydych chi am eu newid a pham?

*Y broblem yr hoffwn fynd i'r afael â hi yw...*

*Mae'r broblem hon yn broblem oherwydd...*

*Mae hynny'n golygu….*

*Mae'r broblem hon yn fy ysgol/ cymuned / clwb ieuenctid ac ati.*

Byddai hyd yn oed yn well pe gallech gyflwyno tystiolaeth o'r broblem

*Efallai eich bod wedi gweld rhai ffeithiau a ffigurau, neu eu bod gyda chi o gynnal eich ymchwil fach eich hun o siarad â'r bobl rydych chi am weithio gyda nhw.*

## 4. Dywedwch wrthym am eich syniad i fynd i'r afael â'r broblem hon.

*Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, byddaf yn...*

*Pwy fydd yn helpu? Pobl ifanc/ oedolion / aelodau'r gymuned/ pawb?*

*Faint o bobl y byddwch chi'n eu helpu?*

*Ble byddwch chi'n mynd i'r afael â'r broblem hon? Yr ysgol? Y gymuned? Clwb Ieuenctid? Arall?*

## 5. Sut bydd eich prosiect yn gwneud Caerdydd yn lle mwy cyfartal?

*Beth fydd yr effaith ar y gymuned?*

*A fydd newid yn digwydd?*

*Sut bydd eich prosiect o fudd i bobl ifanc?*

## 6. Bydd angen i chi gyflwyno cyllideb, isod cewch enghraifft

*Llogi lleoliad am 2 ddiwrnod – £300*

*Arlwyo ar gyfer 20 o bobl = £200*

*Deunyddiau = £50*

*Offer, meicroffon, camera = £300*



## Awgrymiadau defnyddiol!

- ☑ Dywedwch wrthym gymaint ag y gallwch am eich syniad. Dywedwch wrthym am y broblem, sut mae eich prosiect yn mynd i'r afael â'r broblem, pwy bydd hyn yn ei helpu, a sut y bydd yn helpu.
- ☑ Gwnewch yn siŵr eich bod yn esbonio sut mae hyn yn helpu pobl ifanc yn eich cymuned. Daliwch ati i feddwl bob amser sut y bydd hyn yn gwneud Caerdydd yn lle mwy cyfartal
- ☑ Byddwch yn ddewr, yn greadigol ac yn arloesol
- ☑ Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gofyn am gydsyniad oedolyn os ydych dan 18 oed
- ☑ Gallwch bob amser ysgrifennu eich atebion mewn dogfen Word ymlaen llaw a'u pastio i'r ffurflen pan fyddwch chi'n hapus gyda hyn.

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. **Oes rhaid i mi wneud cais am y swm llawn?**

   Nac oes, mae'r grantiau hyn hyd at £1000, peidiwch â meddwl bod rhaid i chi wneud cais am y swm llawn os nad oes ei angen arnoch.

2. **Os gwnes i gais am grantiau Ysgogwyr Newid Ifanc o'r blaen, a gaf i wneud cais eto?**

   Gallwch! Cyn belled â'ch bod yn cyflawni'r prosiect yng Nghaerdydd.

3. **Os bydd rhai diwrnodau hyfforddi yn digwydd yn ystod amser ysgol, a allaf ddod fodd bynnag?**

   Gallwch, byddwn yn gweithio gyda'ch rhiant/gwarcheidwaid a'r ysgol i sicrhau eich bod yn gallu mynychu gweithdai a digwyddiadau os ydynt yn amser ysgol. Credwn fod hwn yn gyfle gwych i ddysgu felly rydym yn siŵr y bydd ysgolion yn cefnogi!

4. **Os na fyddaf yn gwario'r holl arian, a fydd rhaid i mi ei roi yn ôl?**

   Byddwn yn gweithio gyda chi i'ch helpu i reoli eich cyllideb, byddwn yn eich talu mewn dau randaliad ac yn gwirio gyda chi i helpu i sicrhau y gallwch wneud y defnydd gorau o'r holl arian a ddarperir i'ch prosiect.

5. **Os ydw i'n prynu offer ar gyfer fy mhrosiect, a oes rhaid i mi ei roi yn ôl i Plan International UK?**

   Nac oes, os ydych chi'n prynu offer sy'n eich helpu i gyflawni eich prosiect, byddwch chi'n gallu ei gadw. Rydym yn disgwyl y bydd yn eich helpu i barhau â'ch gwaith a gadael etifeddiaeth gyda chi. Fodd bynnag, os nad ydych wedi defnyddio offer a brynwyd ar gyfer y prosiect, yna efallai y byddwn yn gofyn amdano.

6. **Oes rhaid i mi gadw gwybodaeth a derbynebau ariannol?**

   Oes, ond peidiwch â phoeni - mae'n hawdd iawn! Rydym wedi creu taenlen i chi ei defnyddio a byddwn yn dangos i chi sut i'w llenwi ar y diwrnod ysbrydoli.

7. **Pa mor aml y bydd angen i mi lenwi'r ffurflen gyllideb?**

   Dim ond ddwywaith!

8. **Pryd byddaf yn cael yr arian?**

   Bydd Plan International UK yn gweithio gyda chi i greu telerau ac amodau lle byddwn yn nodi eich cynllun talu. Hoffem eich talu mewn dau randaliad, un ar ddechrau'r prosiect, ac yna un arall hanner ffordd drwy'r prosiect. Bydd angen i'ch adroddiad cyllid cyntaf gael ei gwblhau cyn rhoi hanner arall yr arian i chi, ond peidiwch â phoeni, byddwn yn eich cefnogi!

## 9. Beth yw'r llinell amser amcangyfrifedig?

Yr wythnos yn dechrau 17 Gorffennaf
**Ceisiadau Ar Agor**

Dydd Gwener 22 Medi
**Dyddiad Cau gwneud y Cais**

Yr wythnos yn dechrau 9 Hydref
**Byddwn yn rhoi gwybod i chi os ydych wedi bod yn llwyddiannus**

9-20 Hydref
**Cyfarfod un i un gyda Plan UK**

9-20 Hydref
**Creu a llofnodi'r telerau ac amodau gyda Plan UK**

Tachwedd
**Diwrnod Ysbrydoli Un**

Mis Tachwedd wedi'r diwrnod Ysbrydoli
**Derbyn eich taliad cyntaf**

Chwefror 2024
**Ail Daliad**

Ebrill 2024
**Digwyddiad dathlu**

For children and equality for girls

**Plan International UK**
Finsgate,
5-7 Cranwood Street,
London,
EC1V 9LH

www.plan-uk.org
ChampionsofWales@plan-uk.org
@PlanUK
T: 0300 777 9777
© Plan International UK

Registered charity no: 276035